

# Ôl-ddyledion – benthycia un i un

## Taflen wybodaeth

Rhif.005

Os ydych yn hwyr yn gwneud taliadau ac wedi derbyn hysbysiad ôl-daliadau dyma rywfaint o wybodaeth bwysig i'ch helpu.

### Peidiwch ag anwybyddu'r problem.

- **Gweithiwch allan faint o arian sy'n ddyledus gennych.** Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi wneud rhestr o bawb y mae arnoch arian iddynt. Gall cynghorydd dyledion eich helpu.
- **Cysylltwch â'r llwyfan benthycia un i un a drefnodd eich benthyciad.** Dywedwch wrthynt eich bod yn cael problemau. Efallai y gallant drafod opsiynau ar gyfer ad-dalu'r hyn sy'n ddyledus gennych.
- **Ceisiwch help a chyngor am ddim.** Mae eich hawliau a'ch opsiynau'n dibynnu ar y math o gytundeb, a gall y gyfraith fod yn gymhleth. Gallwch gael help a chyngor annibynnol am ddim gan nifer o sefydliadau – trowch drosodd am fanylion.
- **Talwch ddyledion â blaenoriaeth yn gyntaf.** Mae mwy o frys i dalu rhai dyledion nag eraill am y gall canlyniadau peidio â'u talu fod yn fwy difrifol nag ar gyfer dyledion eraill – e.e. morgais, rhent, treth gyngor/ardrethi neu ôl-ddyledion nwy neu drydan. Gall cynghorydd dyledion eich helpu i lunio cyllideb i reoli eich arian.
- **Meddyliwch yn ofalus cyn benthyc arian i addalu dyledion.** Ceisiwch gyngor cyn benthyc yn erbyn eich cartref – byddwch yn talu mwy yn y pen draw a byddwch yn wynebu risg o golli eich cartref.
- **Mae'n bosibl y gallwch ofyn i lys roi mwy o amser i chi ad-dalu dyled.** Ond dim ond o dan rai amgylchiadau. Siaradwch â chynghorydd dyledion cyn ystyried cymryd camau mewn llys. Cadwch gopiâu o lythyrau a negeseuon e-bost rhag ofn y bydd eu hangen ar y llys.

### Gallai gwneud dim wneud pethau'n waeth

- Gallech dalu mwy mewn llog a thaliadau yn y pen draw. Gallai taliadau a fethwyd effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd yn y dyfodol. Os byddwch yn parhau i beidio â gwneud taliadau gallai hyn arwain at gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn i'ch gorfodi i ad-dalu'r arian sy'n ddyledus neu ddychwelyd nwyddau sydd wedi'u hurbwrcasu.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

## Help a chynghor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau dielw hyn i gael cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar ddyled, neu i gael manylion ble i gael cyngor o'r fath yn eich ardal chi.

### Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Er mwyn cael adnoddau arian, gwybodaeth a chynghor diduedd a hawdd eu deall am ddim, ewch i [www.moneyadvice.service.org.uk](http://www.moneyadvice.service.org.uk) neu ffoniwch 0800 138 0555 (Cymraeg) neu 0800 138 7777 (Saesneg) er mwyn siarad â Chynghorydd Arian.

### Money Advice Scotland

Os ydych yn byw yn yr Alban, ffoniwch 0141 572 0237 neu ewch i [www.moneyadvice.scotland.org.uk](http://www.moneyadvice.scotland.org.uk) i gael manylion cyswllt am gyngor ar ddyled yn eich ardal leol.

### Cyngor ar Bopeth

I gael cyngor a gwybodaeth am ddyled a phynciau eraill, ewch i'ch Cyngor ar Bopeth leol (mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn) neu ewch i [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk).

### Citizens Advice Northern Ireland

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch 0800 028 1881, anfonwch neges e-bost i [debt.advice@citizensadvice.co.uk](mailto:debt.advice@citizensadvice.co.uk) ewch i [www.citizensadvice.co.uk](http://www.citizensadvice.co.uk) i gael cyngor ar ddyled.

### Cyngor ar Bopeth Cymru

Os ydych yn byw yng Nghymru, galwch llinell gymorth 'Adviceline' ar 0300 330 1313 i siarad gyda rhywun am eich dyledion. Mae galwadau yn costio 12c y funud o linellau ffôn sefydlog, neu rhwng 3c a 45c o ffôn symudol, neu ewch i'r wefan (Saesneg yn unig) [www.citizensadvice.org.uk/wales/debt-and-money/help-with-debt/get-help-with-your-debts/get-help-with-your-debts](http://www.citizensadvice.org.uk/wales/debt-and-money/help-with-debt/get-help-with-your-debts/get-help-with-your-debts)

### AdviceUK

Mae aelod-ganolfannau yn cynnig cyngor ar ddyledion gan gynnwys cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau – [www.adviceuk.org.uk](http://www.adviceuk.org.uk) neu ffoniwch 0300 777 0107.

### Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)

I gael cyngor ar ddim ar ddyled yn eich cartref, edrychwch i weld pa godau post a gwmpesir yn [www.capuk.org](http://www.capuk.org) ac yna ffoniwch 0800 328 0006.

### Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ffoniwch 0808 808 4000 neu ewch i [www.nationaldebtline.org](http://www.nationaldebtline.org) i gael cyngor a gwybodaeth am ddyled.

### Elusen Ddyled StepChange

I gael cyngor ar ddyled ledled y DU ffoniwch 0800 138 1111 neu ewch i [www.stepchange.org](http://www.stepchange.org).

## Sefydliadau defnyddiol eraill

### Cyngor Cyfreithiol Sifil

Gallwch gael cyngor cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Ewch i [www.gov.uk/civil-legal-advice](http://www.gov.uk/civil-legal-advice) neu ffoniwch 0845 345 4345.

### Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol

Os oes gennych gwyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, efallai y gall Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu - ffoniwch 0300 123 9123 neu 0800 023 4567 neu ewch i [www.financial-ombudsman.org.uk](http://www.financial-ombudsman.org.uk).